**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales

0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Mark,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ystod y gwanwyn.

### Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 19 Rhagfyr 2023.

### Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ar 11 Ionawr 2024 rhwng 09.30 a 11.00.

### Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. At hynny, byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn dilyn y sesiwn, bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gydag unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth neu eglurhad a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau yn y Senedd.

Yn gywir

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1: Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

## Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 a rhagolwg o’r alldro ar gyfer 2023-24.
- Sylwadau ar y Camau Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Rhyngwladol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o’r newidiadau rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 a’r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

## Gwybodaeth arall

- Goblygiadau sy’n deillio o effaith barhaus ymadawiad y DU â'r UE ar gynlluniau gwariant ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.
- Goblygiadau effeithiau parhaus y rhyfel yn Wcráin.
- Sylwadau ar yr ymrwymiadau o ran cysylltiadau rhyngwladol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

## Meysydd penodol

### Strategaeth Ryngwladol

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- Amlinelliad o'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft i gyflawni'r camau gweithredu sydd ym mhob un o'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.
- Adnoddau ar gyfer sefydliadau Cymry ar wasgar allanol.
- Adnoddau ar gyfer pob partner cyflenwi unigol sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.

- Adnoddau ar gyfer sefydliadau celfyddydau a chwaraeon allanol i gefnogi’r gwaith o gyflwyno'r strategaeth.
- Adnoddau gyda'r nod o hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhyngwladol.
- Adnoddau ar gyfer ymgysylltu â’r rhanbarthau a gwledydd blaenoriaeth a amlinellir yn y Strategaeth Ryngwladol.

## Rhaglen Cymru ac Affrica

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- yr adnodd a ddarperir i'r prosiectau a’r sefydliadau a gefnogir gan raglen Cymru ac Affrica.
- cyllid i gefnogi’r gwaith o ddatblygu prosiectau Plannu Coed ledled Affrica, gan gynnwys Rhaglen Plannu Coed Mbale bresennol.
- cyllid i gefnogi Cymru fel Cenedl Masnach Deg, a manylion y canlyniadau fydd yn cael eu cyflawni a sut y bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei fesur.

## Swyddfeydd tramor

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- Gwaith y swyddfeydd tramor, a manylion am y canlyniadau a gaiff eu cyflawni a sut yr eir ati i fesur y broses o gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Holl ymgysylltiad arfaethedig Llywodraeth Cymru â digwyddiadau mawr rhyngwladol, gan gynnwys sut yr eir ati i werthuso costau a manteision ymgysylltu â'r digwyddiadau.
- Dyraniadau’r gyllideb ddrafft ar gyfer swyddfeydd tramor unigol, ac ar ba sail y gwaned penderfyniadau ar y dyraniadau penodol hyn.